| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:**<br>○ **StatsCymru**<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:**<br>○ **Traffig Cymru**<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:**<br>○ **Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr"** | |
| 57 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.<br><br>**Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas ag ap trafnidiaeth rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.** | 30/03/2016 |
| 58 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 58 ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>○ **Cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.** | 30/03/2016 |
| 59 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 59 ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>○ **Cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.** | 30/03/2016 |

